

## Cofion

- Parhawn i gofio yn ein gweddïau am Harold Pierce (Llanefydd); a Trefor Jones a Menna Owen (Cefn Meiriadog), y tri yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd wrth inni baratoi'r rhifyn yma o Llais Bro Aled. Yn yr ysbyty hefyd y mae Heulwen Roberts (Henllan). Cofiw'n yn ein gweddïau amdani hithau. Hyderwn bod y pedwar yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen. Anfonwn ein cofion hefyd at Euros Lloyd (Llansannan) sydd wedi cael anffawd i'w fraich, ac at eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn.
- Mae eraill o'r Ofalaeth wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos. Dymunwn Dduw'n ddigon ac yn noddod a nerth iddynt hwythau.
- Llongyfarchiadau i Eryl Lloyd Evans (Llansannan) a Rebecca ar enedigaeth merch fach, Megan Lloyd. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.
- Yr un modd, parhawn i gofio am ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mr Elfed Davies (Plas Eleri); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mrs Mair Roberts, Miss Hannah Alice Jones a Mr Harold Lloyd (Yr Hen Ficerdy); Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Myra Hughes a Mrs Menna Streeter (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); a Mrs Enid Jones (Plas Ogwen).

## I ddod

- **Cwrs leuencid yng Ngholeg y Bala** - Chwefror 16eg-19eg. Cost: £65 y person a £32.50 ar gyfer ail berson o'r un teulu, ond bydd gostyngiad pellach o £10 i bob person ifanc o'r Ofalaeth. Yn ogystal â dysgu mwy am Iesu, bydd gweithgareddau amrywiol – rhaffau uchel, saethu paent, gladiators, noson ffilm, noson dalent... a lot o hwyl! Rhaid llenwi ffurflen ganiatâd a'i dychwelyd i Rhodri hefo blaendâl o £10 y penwythnos hwn! Ffurflenni a mwy o wybodaeth ar gael gan Rhodri (870522 / 07814 660291).
- **Swper y Gymdeithas yn Saron** – Nos Wener, Chwefror 17eg gyda'r elw i Apêl Guatemala. Enwau i Emyr neu Sian erbyn Chwefror 10fed, os gwelwch yn dda.
- Bydd **Chwiorydd Eglwys Bro Aled** yn cyfarfod yn Llanefydd nos Fawrth, Chwefror 21ain am 7.00 gyda Dr Mari Lloyd Williams yn annerch. Thema ei sgwrs fydd "Creu Cymunedau sy'n dosturiol".
- **Cyflymu Tua'r Nod** – Yr ail o'r cyfarfodydd i holl flaenoriaid y Fro ac i unrhyw un arall sydd â diddordeb i ddod i ddeall mwy am weledigaeth y Fro a gwaith yr eglwys, nos Fawrth, Chwefror 28ain yng Nghapel Henllan am 7.30.
- **LLANW** - Gŵyl deuluol yng Nghei Newydd rhwng Ebrill 9fed-13eg ar gyfer Cristnogion led-led Cymru – plant, ieuenctid, teuluoedd, myfyrwyr, pobl sengl a pharau o bob oed! Mwy o fanylion ar y wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org) neu drwy holi Rhodri.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5<sup>ed</sup> Chwefror 2012

Enwau a blaendâl i Rhodri y penwythnos hwn os ydych chi am fynd ar y Cwrs leuencid yng Ngholeg y Bala. Mwy o fanylion ar y cefn.

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Bore da i bob un ohonoch a chroeso ac ymddiheuriadau! Cafodd nifer ohonoch fendith o'r gwasanaeth ar y radio a diolch eto i bawb ddaru gyfrannu ymhob ffordd ond mae rhai wedi eu siomi nad oeddent wedi cael cymryd rhan. Mae'n ddrwg gen i am hynny – gobeithio y daw cyfle arall cyn hir i ni gael mentro eto! Gwasanaeth 'stiwidio' ydi'r drefn bellach ac mae'r gofynion yn eithaf caeth. Cawsom ymateb da o sawl man y tu hwnt i'r Fro hefyd a diolch i bawb am eu cefnogaeth. Ein nod oedd rhannu beth y mae'r Ysbryd Glân a'r Gair wedi ein harwain ato o ran ein golwg ar berson Iesu yn dilyn y gyfres o oedfaon ar y saith dywediad 'Myfi Yw'. Mae cymaint i'w ddysgu o'r geiriau yma!

Ddaru chi fwynhau yr emynau? Cafwyd naws arbennig ymhob emyn a chlod i'r Arglwydd yn amlwg. Oni fyddai'n braf medru recordio mwy o'n hemynau gorau er mwyn eu cael yn y car neu adre ar y cyfrifiadur neu'r peiriant CD? Mae Duw wedi ein bendithio â cherddorion ardderchog a chantorion hyfryd ac mae gennym offer da i wneud recordiad. Byddai gwneud recordiad digidol yn ffordd dda o rannu'r fendith.

Fe ddaw'r adar bach i ganu cyn hir yn arwydd o ddyfodiad y gwanwyn ac y mae gennym ninnau gyfle i ganu mawl i'r Arglwydd yn arwydd o'n diolchgarwch am ei ddaioni a'i ras. Nid pob creadur sy'n gallu canu. Ambell i geiliog! Dwi'n deall fod Côr Meibion Bro Aled yn canu'n well rwan hefyd heb y blewiach! Llongyfarchiadau a diolch i'r Côr am godi swm mor anrhydeddus tuag at yr Uned Gancr yn Ysbyty Glan Clwyd.

Yn Salm 96 mae sôn am 'holl brennau y coed' yn 'canu o flaen yr Arglwydd'. A'r rheswm dros y canu? "Oherwydd y mae'n dod i farnu'r ddaear." Fyde chi ddim yn meddwl am ddyfodiad dydd o farn fel rhywbeth i edrych ymlaen tuag ato nac i ganu amdano. Mae hyn yn wir i'r galon euog ond y mae gan Dduw bwrpas mawr i'w farn sef dod a chyfiawnder i lawr o'r nefoedd fel y môr i 'gusanu euog fyd'. Rhywbeth i'w groesawu – yn groes iawn i'r disgwyl – ydi barn Duw oherwydd y mae'n barnu'n gyfiawn, yn dod â chyfiawnder yn lle cywilydd a heddwch yn ei sgil. Canu am ein bod yn cael cyfle i edifarhau a derbyn heddwch gan Dduw. Canu am fod Duw yn gyfiawn! Canu am fod yn cyfiawnhau'r annuwiol yn Iesu! Canu am fod ffynnon wedi ei hagor yng nghlwyfau Iesu i'n golchi'n lân! Canu am fod Duw yn ein caru mor fawr â hyn! Oes – rhesymau da hyd yn oed i'r coed ddechrau canu heb sôn am bechaduriaid fel ni! Cenwch i'r Arglwydd heddiw felly – cenwch gân newydd – fel petai'r gwanwyn wedi cyrraedd eich enaid!

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mercher **Dod i Adnabod – Grŵp Rhodri** yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog am 7.30.  
**Dod i Adnabod – Grŵp Aneurin** yn cyfarfod yn Groes am 7.30.  
Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod am 8.00.
- Iau **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.  
**Astudiaeth Feiblaidd** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.  
**Adnabod Be Nesa?** yn y Granar yn Llansannan am 7.30 i'r criw gafodd eu derbyn yn aelodau yn ddiweddar a ieuentid 15+.
- Gwener **C.I.C.** (Clwb Ieuentid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15
- Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 gydag Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.  
Bydd pwyllgor i drefnu Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwirydd yn Ystafell y Blaenoriaid am 7.15. Croeso i bwy bynnag sydd â diddordeb.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Irfon Parry yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Ioan Davies yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac oedfa gymun yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mr David Owens yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00 a'r Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Nghefn Berain am 11.15.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau